



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cofrestru ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith â Chyngor y Gweithlu Addysg

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2016

Cofrestru ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith â Chyngor y Gweithlu Addysg

Cynulleidfa	Pob corff sy'n ymwneud â meysydd addysg gan gynnwys undebau, awdurdodau lleol, ymarferwyr, darparwyr hyfforddiant ym maes addysg, a sefydliadau ac elusennau cenedlaethol.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a'r adborth a gafwyd ynghylch y cynnig bod yn rhaid i unigolyn gael ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg er mwyn gweithio fel ymarferwr Dysgu Seiliedig ar Waith.
Camau l'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygiad Proffesiynol Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: ewc.enquiries@Wales.GSI.Gov.UK
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

Cynnwys

Cefndir	2
Yr ymgynghoriad	3
Crynodeb o'r ymatebion	4
Cwestiwn 1	4
Cwestiwn 2	5
Cwestiwn 3	6
Cwestiwn 4	7

Cefndir

Ad-drefnodd Deddf Addysg (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, gan ehangu cylch gwaith y corff a diwygio cyfansoddiad ei aelodaeth er mwyn creu Cyngor y Gweithlu Addysg (“y Cyngor”).

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i greu a chynnal cofrestr o athrawon ysgol, athrawon Addysg Bellach a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion/sefydliadau Addysg Bellach. Mae’n ofynnol i unigolion ym mhob un o’r pedwar categori gofrestru os ydynt yn dymuno gweithio mewn ysgolion a gynhelir neu sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru, gan gynnwys athrawon peripatetig a’r sawl sy’n gweithio i asiantaeth, sy’n gwneud gwaith cyflenwi neu sydd â swyddi dros dro. Mae’n ofynnol i bob cyflogwr sicrhau mai dim ond pobl sydd wedi’u cofrestru â’r Cyngor a gaiff eu cyflogi ganddynt.

Ar hyn o bryd, nid yw’n ofynnol i ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith gofrestru ag unrhyw gorff cofrestru.

Er i Lywodraeth Cymru nodi yn y lle cyntaf y proffesiynau yr oedd yn ofynnol iddynt gofrestru (dan Atodlen 2 y Ddeddf), nid oedd hynny’n golygu na fyddai modd ei gwneud yn ofynnol i grwpiau eraill gofrestru yn y dyfodol, megis ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a gweithwyr ieuenctid, sydd hefyd â chyfraniad gwerthfawr i’w wneud i addysg a hyfforddiant pobl ifanc. Mae Deddf 2014 yn creu fframwaith sy’n galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu categorïau cofrestru newydd, fel y bo’n briodol ac yn amodol ar gytundeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae’n hanfodol bod yr holl ymarferwyr gwahanol hyn yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol a’u bod yn gallu cael mynediad i gymwysterau, cymorth a chyfleoedd datblygu sydd wedi’u cynllunio’n dda. Mae eu proffesiynoldeb, eu haddasrwydd a safonau eu hymddygiad, eu hyfforddiant a’u datblygiad yn allweddol i’w llwyddiant. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau ein bod yn cydnabod rôl pawb sy’n gweithio i gefnogi addysgu a dysgu yn rhan o un gweithlu addysg cydlynol yng Nghymru.

Yr ymgynghoriad

Cafodd yr ymgynghoriad ei ddosbarthu ar draws nifer o sectorau allweddol gan ddefnyddio ystod o rwydweithiau.

Cafwyd 18 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

Daeth yr ymatebion i law oddi wrth y sectorau canlynol:

Ymatebydd	Nifer yr ymatebion
Cyrff dyfarnu	3
Undebau	5
Ysgolion, colegau a phrifysgolion	0
Awdurdodau lleol	0
Darparwyr hyfforddiant ym maes addysg	5
Sefydliadau ac elusennau cenedlaethol	4
Ymarferwyr	1
Cyfanswm	18

Mae'r ddogfen hon yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad ar sail yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn. Nid yw'n ceisio nodi pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr; yn hytrach mae'n ceisio tynnu sylw at y prif faterion a'r prif themâu. Mae rhestr o'r ymatebwyr yn ogystal â'r ymatebion i'w gweld yn yr Atodiad sydd ynghlwm.

Crynodeb o'r ymatebion

Cwestiwn 1

A ydych yn cytuno â'r cynnig y bydd y gofyniad i gofrestru'n berthnasol i ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n darparu gwasanaethau hyfforddi a dysgu drwy ddarparwr Dysgu Seiliedig ar Waith a gaiff ei gcontractio gan Lywodraeth Cymru, fel y nodir ym mharagraff 6.2?

Ymateb i'r ymgynghoriad:

Cawsom 18 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (16) yn cytuno â'r cynnig y dylai ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n darparu gwasanaethau hyfforddi a dysgu drwy ddarparwr Dysgu Seiliedig ar Waith a gaiff ei gcontractio gan Lywodraeth Cymru gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg, fel y nodir ym mharagraff 6.2. Nid oedd dau ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno.

Yr hyn a oedd yn amlwg o'r ymatebion oedd bod y sector Dysgu Seiliedig ar Waith yn awyddus i gael trefn gofrestru, a'i fod yn ystyried bod cofrestru'n ffordd o godi statws y sector a rhoi cydnabyddiaeth iddo. Roedd yn ddiddorol nad oedd neb yn anghytuno â'r cynigion.

Gwnaeth yr ymatebwyr y sylwadau canlynol ynghylch y cwestiwn hwn:

- (Y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau). Rydym o'r farn bod gweithredu fel hyn yn briodol er mwyn sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith o safon uchel yn gyson. Bydd hefyd yn sicrhau bod rolau'r sawl a gyflogir i wneud y gwaith hwn yn cael eu cydnabod yn ffurfiol.
- Mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn cefnogi'n llwyr y cysyniad y dylai'r gofyniad i gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg fod yn berthnasol i bob unigolyn sy'n ymwneud â chyflwyno'r ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith a gaiff ei gcontractio gan Lywodraeth Cymru (gan gynnwys ddarpariaeth wedi'i his-gcontractio ar unrhyw lefel). Mae'r Ffederasiwn yn credu'n gryf mai hwn fydd y cam cyntaf tuag at gydnabod proffesiynoldeb y gweithlu Dysgu Seiliedig ar Waith ac y bydd yn cynnig cyfle i gynllunio a datblygu'r gweithlu'n fwy effeithiol.
- (Estyn). Dylai'r gofyniad i gofrestru'r gweithlu fod yn berthnasol i bob ymarferwr sy'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant i ddysgwyr. Byddai cofrestru'n codi statws yr aelodau hynny o staff, sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn at ddatblygu'r gweithlu.
- (North Wales Training Ltd). Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig bod ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector Dysgu Seiliedig ar Waith yn cael eu cynnwys yn y drefn gofrestru broffesiynol, oherwydd bydd yn fodd i gydnabod y proffesiynoldeb a'r sgiliau y mae'r grŵp penodol hwn, a gaiff ei ddiystyru'n aml, yn eu cyfrannu i'r broses ddysgu a darparu hyfforddiant.

- Mae angen i Gymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau barhau'n niwtral ynglŷn â'r cynnig hwn.

Cwestiwn 2

Mae paragraff 6.10 yn nodi'r rolau/teitlau swyddi na fydd yn ofynnol iddynt gofrestru â'r Cyngor.

A oes unrhyw deitlau swyddi/rolau eraill a ddylai, yn eich barn chi, gael eu heithrio rhag gorfod cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg dan y categori 'ymarferwr Dysgu Seiliedig ar Waith'?

Ymateb i'r ymgynghoriad:

Cawsom 18 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (15) yn credu bod angen eithrio unrhyw deitlau swyddi/rolau eraill rhag gorfod cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg dan y categori 'ymarferwr Dysgu Seiliedig ar Waith'. Ni chafwyd ateb pendant gan ddau ymatebydd, a darparodd un ymatebydd deitlau swyddi/rolau a ddylai gael eu heithrio.

Roedd yn ddidorol bod rhai ymatebwyr wedi defnyddio'r cwestiwn hwn i ddadlau y dylai gwirwyr ac uwch-reolwyr gael eu cynnwys yn hytrach na'u heithrio, ond roedd ymatebwyr eraill yn teimlo na ddylent gael eu cofrestru. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylai'r rolau canlynol gael eu heithrio: staff derbynfeydd a staff gweinyddu canolfannau; uwch-reolwyr; a gwirwyr mewnol ac allanol.

Gwnaeth yr ymatebwyr y sylwadau canlynol ynghylch y cwestiwn hwn:

- Mae gan lawer o sefydliadau ymarferwyr y mae'n ofynnol iddynt weithredu mewn mwy nag un rôl fel aseswyr a gwirwyr mewnol. Dylai'r broses gofrestru ymdrin â'r ddwy rôl hyd yn oed os yn achlysurol yn unig y mae'r ymarferwr yn asesu gwaith dysgwyr. Pe na bai'n ofynnol i wirwyr mewnol gofrestru, byddai hynny'n creu man gwan ac amwysedd.
- Mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru o'r farn bod y rolau a nodwyd, hy Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol ac Allanol, yn hollbwysig i lwyddiant cyffredinol gwaith addysgu a dysgu o safon gyda'r sector Dysgu Seiliedig ar Waith.

Mae unigolion bob amser yn cyrraedd y rolau hynny drwy'r rolau ymarferwyr a nodir ym mharagraff 6.8 y ddogfen ymgynghori. Felly, bydd pob Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol ac Allanol maes o law wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg fel mater o drefn.

Fodd bynnag, byddem yn awyddus i weld y cyfle i gofrestru'n cael ei gynnig i'r sawl sydd am wneud hynny'n wirfoddol. Roedd y Ffederasiwn o'r farn y byddai hynny'n hawdd i'r sawl a gyflogir gan ddarparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith ond y byddai'n anos i'r sawl a gyflogir gan Sefydliadau Dyfarnu.

- Mae Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau yn nodi mai dim ond yr ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â dysgwyr fydd, dan y cynigion, yn rhwym wrth God Ymddygiad ac Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg. O ganlyniad, ni fydd bywydau proffesiynol a phreifat y sawl sy'n rheoli, neu sy'n gyfrifol fel arall am graffu ar waith yr ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith, megis arolygwyr neu swyddogion sicrhau ansawdd, yn gorfod cael eu plismona i'r un graddau.

Cwestiwn 3

Mae paragraff 6.8 yn rhestru'r rolau penodol ymhlith ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yr ydym o'r farn y dylai fod yn ofynnol iddynt gofrestru. A oes unrhyw rolau eraill na chânt eu nodi y mae'r disgrifiad o ymarferwr Dysgu Seiliedig ar Waith yn berthnasol iddynt yn eich barn chi?

Ymateb i'r ymgynghoriad:

Cawsom 18 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (11) deitlau swyddi/rolau na ddylent gael eu heithrio rhag cofrestru. Nid oedd yr ymatebwyr eraill (7) yn gallu nodi unrhyw rolau eraill a ddylai gael eu cynnwys yn y disgrifiad o ymarferwr Dysgu Seiliedig ar Waith.

Fel yn achos y cwestiwn blaenorol, roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai fod yn ofynnol i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol ac Allanol, Swyddog Ymgysylltu, Swyddog Ymsefydlu a Llyfrgellydd gofrestru.

Gwnaeth yr ymatebwyr y sylwadau canlynol ynghylch y cwestiwn hwn:

- (Estyn). Mae cofrestru'n hanfodol ar gyfer rolau allweddol hyfforddwr, aseswr, mentor a hyfforddwr dysgu. Fodd bynnag, mae angen i bob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â dysgwyr gael eu cofrestru.
- (Cambrian Training Ltd). Rydym wedi ystyried y mater hwn yn ofalus iawn, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn cynnwys rheolwyr canol ac uwch-reolwyr nad ydynt yn dod i gysylltiad uniongyrchol â dysgwyr ond sy'n weithwyr proffesiynol ym maes Addysg a Hyfforddiant ac sy'n ystyried Cyngor y Gweithlu Addysg yn gorff proffesiynol iddynt o safbwynt cofrestru a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.
- Nododd North Wales Training Ltd nad oedd cyfle i'r sawl sydd mewn rolau cynghori a darparu arweiniad ffurfiol fod yn rhan o'r broses gofrestru. Gallai cofrestru gael ei ystyried yn gam gwirfoddol i'r sawl sydd mewn rolau o'r fath.
- (Cyngor Gofal Cymru). Mae'r Cyngor yn nodi bod gwirwyr safonau, megis Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol, wedi'u heithrio o'r broses gofrestru. Er ei bod yn wir nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â dysgu ac asesu dysgwyr, maent yn llunio barn ynghylch rolau proffesiynol, arferion a chanlyniadau'r sawl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith hwnnw. Felly, maent yn gallu dylanwadu ar wella

safonau ansawdd ym maes dysgu ac asesu. Mae'r Cyngor o blaid cofrestru Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol ac Allanol gan eu bod yn llunio barn ynghylch rolau proffesiynol, arferion a chanlyniadau'r sawl y mae'n ofynnol iddynt gofrestru a'u bod yn gallu dylanwadu ar wella safonau ansawdd ym maes dysgu ac asesu.

- (Cyngor y Gweithlu Addysg). Mae'r Cyngor o'r farn mai'r pedair rôl a restrir ym mharagraff 6.8 yw'r prif rolau y dylai fod yn ofynnol iddynt gofrestru. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymwybodol y gallai darparwyr ddefnyddio teitlau gwahanol yn ymarferol. Felly, bydd yn egluro yn ei ganllawiau cofrestru mai'r meini prawf allweddol ar gyfer cofrestru yw'r hyn y mae ymarferwr Dysgu Seiliedig ar Waith unigol yn ei wneud yn hytrach na theitl ei swydd. Mae'r Cyngor wedi darparu cyngor o'r math hwn i gyflogwyr y sawl sy'n cofrestru mewn categorïau cofrestru eraill.
- Yn ogystal â'r pwyntiau a wnaed uchod, mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn cytuno â'r gofyniad y dylai'r sawl sy'n cyflawni'r rolau unigol a restrir ym mharagraff 6.8 gael eu cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg.

Cwestiwn 4

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Roedd y cwestiwn olaf hwn yn caniatáu i'r ymatebwyr gofnodi eu meddyliau a'u sylwadau cyffredinol. O'r 18 o ymatebion a gafwyd, dim ond 10 o ymatebwyr a ddarparodd sylwadau ac roedd yr ymatebion yn ymdrin ag ystod o faterion.

Roedd llawer o'r materion a godwyd yn ymwneud â'r ffi gofrestru a safonau/cymwysterau proffesiynol, ond mae'r rhain yn faterion sydd y tu hwnt i rychwant yr ymgynghoriad hwn.

Gwnaeth yr ymatebwyr y sylwadau canlynol ynghylch y cwestiwn hwn:

- Dylai uwch-reolwyr sy'n gweithio i ddarparwyr gael yr opsiwn i gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg, oherwydd caiff hynny ei ystyried yn ymrwymiad i hybu proffesiynoldeb a datblygiad y gweithlu cyfan ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith.
- Dylid ystyried cynnwys rhai o'r rolau ehangach a gyflawnir ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith ac ystyried rolau mewn sefydliadau sy'n gyfrifol am weithgareddau megis cynllunio cwricwlwm, datblygu cyrsiau a rheoli adnoddau, yn enwedig ar lefelau uwch, oherwydd nhw fydd yn darparu'r ffocws a'r ymrwymiad i gynnydd proffesiynol parhaus y gweithlu.
- O safbwynt Datblygiad Proffesiynol Parhaus a phroffesiynoldeb parhaus y sector, rydym o'r farn y dylai unrhyw unigolion a gyflogir yn y sector Dysgu

Seiliedig ar Waith gan ddarparwr sy'n cynnig prentisiaethau Llywodraeth Cymru gael yr opsiwn i fod yn aelod os ydynt yn credu y gallent, rywbryd yn eu rôl, fod yn cynorthwyo prentisiaid yn y gweithle, ee fel tiwtoriaid arbenigol sy'n darparu Sgiliau Hanfodol Llythrennedd Digidol yn unig neu un Modiwl o Uned Lefel 5 ILMN mewn Cyllid efallai/fel rheolwyr sydd wedi cymhwyso ac sy'n cynorthwyo eu timau i ymdopi â chyfnodau mwy prysur neu dawel nag arfer. Yn ogystal, mae angen ystyried ymgynghorwyr annibynnol a allai fod yn cynorthwyo darparwyr yn ôl yr angen, ee yng nghyswllt y Gymraeg. Byddem yn disgwyl iddyn nhw fod wedi'u cofrestru os ydynt yn arfer cyflawni unrhyw waith darparu hyfforddiant gyda phrentis.